# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)18-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 17 Mehefin 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)17-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 10 Mehefin 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)18-08(p1)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn 4.30pm ar gyfer busnes y Llywodraeth ddydd Mawrth a busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ddydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor y drefn busnes ar gyfer 17 ac 18 Mehefin 2008.

3.3 Nododd y Pwyllgor fod bwriad i gyflwyno cynnig i atal Rheolau Sefydlog i gyflwyno cynigion i leihau nifer aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac i newid aelodau'r Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Menter a Dysgu a'r Pwyllgor ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)18-08(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf **- BC(3)18-08(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Papur diweddaru gan y Pwyllgor Darlledu am eu hymweliad â Llundain - BC(3)18-08(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes y papur a gafwyd gan y Pwyllgor Busnes yn ddiweddar. Nododd y Pwyllgor ei fod wedi eisoes wedi cytuno o ran egwyddor i'r Pwyllgor Darlledu gynnal cyfarfod anffurfiol â'r Pwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin. Nododd y

Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal ddydd Llun 23 Mehefin.

**Cais gan y Pwyllgor Deisebau i ymweld â dwy ysgol yn Sir Benfro i gasglu gwybodaeth - BC(3)18-08(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Deisebau i ymweld ag Ysgol Portfield yn Hwlffordd ac Ysgol Penfro ddydd Gwener 4 Gorffennaf.

YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES